

# Taflen gryno asesu effaith

Blaenoriaeth genedlaethol: Llythrennedd  Rhifedd  Tlodi



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

## Ffocws a/neu gwestiwn ymholi'r CDP:

### Ticiwch ✓

Oedd y CDP wedi rhoi sylw i'r ffocws/cwestiwn ymholi?

Yn llwyr  Gan fwyaf  Yn rhannol  Nac oedd

Pa lefel o effaith oedd y CDP wedi'i chael ar ansawdd a chysondeb y dysgu a'r addysgu yn gyffredinol?

Sylweddol  Cadarnhaol  Ychydig

## Gwerthuso effaith

### Rhowch fanylion am y grŵp o ddysgwyr a dargedir a'r mesur data a ddefnyddir.

Tracio data dysgwyr gwirioneddol gyda gwaelodlin ar ddechrau'r CDP a manylion am asesiadau diwedd cyfnod allweddol, profion darllen, ac ati, sgoriau Profion Dawn Gwybyddol, sgoriau cynnydd dal i fyny, SAS, ysgolion sgiliau, ac ati, yn unol â'r ffocws. Offer mesur meddwl os yw'n gymwys megis systemau graddio hunan-barch neu holiaduron agwedd a chymhelliant.

Datgelodd yr ymatebion i'r holiaduron disgyblion a staff bod ansicrwydd ymhlith y disgyblion o ran dwyn i gof yn sydyn wybodaeth am fondiau rhif a thablau. Cafodd data SIMS (sgoriau safonedig SCYA a'r Prawf Sgrinio Rhif Sylfaenol ar gyfer Tymor yr Haf 2014) eu dadansoddi i lunio Grwpiau Codi Cyrhaeddiad (RAG) o 6 disgybl ym mhob grŵp blwyddyn – 30 o ddisgyblion. Rhoddwyd prawf cychwynnol i'r disgyblion yn ystod trydedd wythnos mis Medi a chofnodwyd sgoriau profion y grŵp RAG – cafodd 83% o'r grŵp (30 o'r 36) lai na hanner marciau. Cafodd y profion eu hailosod yn wythnosol dros Dymor yr Hydref. Cynhaliwyd sesiynau ymarfer 10 munud o hyd i ddysgu ffeithiau ar y cof yn wythnosol ar gyfer blynyddoedd 2-6 gan ddefnyddio adnoddau y cytunwyd arnynt, ee cryno ddisgiau, apiau a gwefannau. Cafodd sgoriau'r profion eu dadansoddi yn ystod wythnos gyntaf mis Rhagfyr – cafodd 28% o'r disgyblion (10 o'r 36) lai na hanner marciau.

## 1. Pa effaith ydy gwaith y CDP wedi'i chael ar y dysgwyr a dargedwyd gan y CDP?

Sylweddol

Cadarnhaol

Ychydig neu Ddim

Asesiad athrawon a chanlyniadau profion cenedlaethol. Sgoriau gwerth ychwanegol FFT, Profion Dawn Gwybyddol. Agweddau at ddysgu, hunan-barch neu offer asesu dawn eraill. Data ymddygiad a phresenoldeb os yw'n berthnasol. Effaith yn seiliedig ar y mesur a ddefnyddir.

Cafodd mwyafrif o'r disgyblion RAG – 72% (26 o'r 36) – fwy na hanner marciau yn y prawf terfynol.

Bu cynnydd yn sgoriau mwyafrif helaeth o'r disgyblion RAG - 94% (34 o'r 36) – o 3 marc o leiaf.

Ni fu unrhyw gynnydd yn sgoriau lleiafswm sylweddol ohonynt - 6% (2 o'r 36) – ac yr un oedd eu sgoriau. Mae'r ddau ddisgybl hwn yn destun camau Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ac mae strategaethau eraill wedi'u rhoi ar waith ers hynny i fynd i'r afael â'u hanghenion penodol fel y'u nodwyd drwy gymharu data disgyblion unigol.

Bu cynnydd sylweddol yn agwedd a symbyliad y disgyblion diolch i'r defnydd o apiau a gwefannau.

Gwelwyd mwy o hyder a llai o ofn/pryder ymhlith pob disgybl ynghylch y profion wythnosol.

## 2. Pa effaith ydy gwaith y CDP wedi'i chael ar aelodau proffesiynol o'r CDP?

Sylweddol

Cadarnhaol

Ychydig neu Ddim

Safonau proffesiynol wedi cael sylw a'u datblygu gan y CDPau. Gallu i gynnal prosiect ymchwil ar raddfa fach. Gallu defnyddio offer asesu dawn. Effaith yn seiliedig ar y mesur a ddefnyddir.

Gwell dealltwriaeth o strategaethau addysgeg er mwyn defnyddio dulliau priodol amrywiol o addysgu, gan ddibynnu ar botensial y disgyblion.

Dysgu Proffesiynol - deialog â mwy o ffocws rhwng staff addysgu a staff eraill; mwy o berchenogaeth o strategaethau ysgol gyfan y cytunwyd arnynt a mwy o ymwybyddiaeth o reolaeth ariannol; mwy o atebolrwydd a chyfle i gymryd cyfrifoldeb rheoli prosiect ar gyfer mentrau ysgol gyfan.

Mwy o hyder i gymryd rhan yn yr addysgeg ar gyfer yr ysgol gyfan, gan gyfrannu a dylanwadu ar yr addysgeg honno.

Mwy o hyder i gydweithio â chydweithwyr er mwyn ystyried arferion da, rhoi cynnig ar syniadau newydd, penderfynu beth yw rhagoriaeth ac amcanu at hyn.

Mwy o hyder i osod targedau heriol ond cyraeddadwy i ddisgyblion, a sicrhau eu hansawdd, a'r gallu i flaenoriaethu amser ac adnoddau a'u neilltuo i gael yr effaith fwyaf bosibl.

Cyfle i rannu arferion da drwy drafodaethau, cyfarfodydd pwnc ac yn dangos parodrwydd i ymchwilio ymhellach.

### 3. Pa effaith ydy gwaith y CDP wedi'i chael ar y gymuned ysgol ehangach?

Sylweddol

Cadarnhaol

Ychydig neu Ddim

Yr ysgol gyfan yn mabwysiadu dulliau neu strategaethau yn dilyn casgliadau a barn y CDP. Rhieni yn cymryd rhan mewn gweithdai Llythrennedd neu Rifedd. Ymatebion gan athrawon a staff nad ydyn nhw'n y CDP. Ymatebion gan rieni/ofalwyr y dysgwyr a dargedir. Llywodraethwyr a grŵp rhanddeiliaid eraill yn ymwybodol o'r ffocws a'r effaith. Beth yw gwaddol y CDP arbennig hon?

Mabwysiadu strategaethau ar draws yr ysgol gyfan ar gyfer addysgu sgiliau rhesymu mathemategol – gweithgareddau datrys problemau cyd-destunol, sydd wedi'u gwahaniaethu ar 3 lefel ac sy'n croesgyfeirio at ddisgwyliadau'r Fframwaith Rhifedd Cenedlaethol, yn cael eu datblygu ar gyfer y pwnc bob hanner tymor. Dadansoddiad o'r data a gasglwyd gan y PLC yn dathlu effeithiau mwyaf cadarnhaol y camau a gymerwyd i godi safonau o ran gallu disgyblion i alw i gof yn sydyn fondiau rhif a thablau. Mae'r llywodraethwyr wedi cael gwybod am y strategaethau a fabwysiadwyd ac effaith y PLC Rhifedd drwy adroddiadau, cyflwyniadau a theithiau cerdded dysgu. Mae pob rhiant yn gallu cael mynediad i wefannau ac apiau a ddefnyddir gan yr ysgol i godi safonau o ran dwyn i gof rifau a thablau.

Etifeddiaeth y PLC benodol hon – cydweithio a pharch rhwng cydweithwyr yn gryfder yn yr ysgol, fodd bynnag, adroddodd aelodau'r PLC eu bod yn teimlo wedi'u grymuso i ymchwilio i darged mawr ar gyfer yr ysgol gyfan ac ymgyrhaedd ato; datblygiad a hyder proffesiynol yr aelod o staff a enwebwyd i gydlynu'r PLC (aelod y Staff Cymorth Dysgu); datblygu strategaethau clir ar gyfer addysgu sgiliau rhesymu rhifyddol a fydd yn parhau i gael eu hymwreiddio a'u hymestyn i'r flwyddyn academaidd nesaf.

### 4. Gwersi a ddysgwyd ac arsylwadau gweithredol allweddol.

Beth oedd wedi gweithio'n dda? Beth oedd heb weithio cystal? Beth fyddech chi'n ei newid neu'n ei fireinio o ran rhedeg CDP newydd?

Roedd cydlynnydd y PLC yn gadarn! Dull trefnus a monitro trylwyr, yn glynu at sicrhau bod dulliau ysgol gyfan yn cael eu mabwysiadu. Amserlenni byr ar gyfer cymryd camau y cytunwyd arnynt. Dyddiadau wedi'u cytuno o'r cychwyn ar gyfer cymryd camau. Ymreolaeth gyda dogn o atebolrwydd! Ymateb y disgyblion i'r ymgyrch dros wella sgiliau rhifau/tablau yr ysgol gyfan – yn ei ystyried fel gêm a chystadleuaeth rhwng dosbarthiadau – hyd yn oed yn cystadlu â'u hathrawon. Mae rhifau yn amlwg iawn yn yr ysgol gyfan o ganlyniad i ymchwil weithredu'r PLC.

Angen mwy o arweiniad ar y PLC o ran monitro cyllidebau. Angen rhagnodi'r cyfrifoldeb am drefniadau athrawon cyflenwi yn fwy eglur y flwyddyn academaidd nesaf!